

Rheolwr Caffi

Theatr Glan yr Afon

swydd 37 awr cyfnod penodol 30 Mehefin

Gradd 4 PCG 21 £12.38 yr awr

(Mae'r buddion i gyflogeion yn cynnwys mynediad at aelodaeth iechyd a ffitrwydd i gyflogeion (ffitrwydd, nofio a dosbarthiadau), hawl gwyliau blynyddol cystadleuol, cynllun pensiwn llywodraeth leol a bwyd a diod ostyngol yng nghyfleusterau Casnewydd Fyw).

Mae Casnewydd Fyw yn ymddiriedolaeth arobryn nid er elw sy'n ymwneud â chwaraeon, hamdden a diwylliant; ac yn Elusen gofrestredig y DU sydd â hanes ardderchog o ddarparu rhaglenni a gwasanaethau arloesol i'n cymunedau a'n trigolion sy'n 'ysbrydoli pobl i fod yn hapusach ac yn iachach'.

Rydym yn ceisio recriwtio unigolyn sydd â'r awydd a'r angerdd i weithio mewn amgylchedd chwaraeon a hamdden ac sy'n gallu dangos yn ddyddiol ein gwerthoedd craidd sef; GOFAL, ANGERDD, GWAITH TÎM, YSBRYDOLIAETH, ARLOESED A CHYNWYSOLDEB. Rydym yn chwilio am Reolwr Caffi brwdfrydig, bywiog a hunan-gymhellol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio ar draws pob un o safleoedd Casnewydd Fyw ac yn cynorthwyo i sicrhau bod pawb sy'n ymweld â lleoliadau Casnewydd Fyw yn cael profiad o amgylchedd croesawgar a diogel sy'n addas at y diben, gan arwain at y mwynhad mwyaf posibl ac awydd i ddychwelyd i leoliadau.

Mae'r swydd wedi'i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyd (1974) ac mae'n amodol ar wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) llwyddiannus.

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch ag ymholiadau Casnewydd Fyw ar 01633 656757 a gofyn am siarad â Lorraine Hancock, neu e-bostiwch lorraine.hancock@newportlive.co.uk

Proses Ymgeisio

Ewch i [Gyrfaedd Casnewydd Fyw](#) | [Hafan](#) i gwblhau ffurflen gais, fel arall, gallwch ofyn am ffurflen gais gan Human.Resources@newportlive.co.uk.


Disgrifiad Swydd

SWYDD:	Rheolwr Caffi
DIBEN Y SWYDD:	Arwain wrth ddarparu profiad rhagorol i gwsmeriaid mewn perthynas â'r ddarpariaeth bwyd a diod yn holl leoliadau Casnewydd FYW.
YN ATEBOL I'R:	Rheolwr Bwyd a Diod
CYFLOG:	Gradd 4 PCG 21 £12.38 yr awr
PERTHNASOEDD ALLWEDDOL:	Aelodau'r cyhoedd, Rheolwr Bwyd a Diod, Cyflenwyr, cydweithwyr Casnewydd Fyw
PRIF LEOLIAD:	Theatr Glan yr Afon a lleoliadau eraill Casnewydd Fyw, gan gynnwys Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, Canolfan Casnewydd a Chanolfan Byw'n Actif.
CYFRIFOLDEB RHEOLI:	Cynorthwywyr Bwyd a Diod
ORIAU/PATRWM GWAITH:	Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio'n hyblyg gan gynnwys yn y bore cynnar, gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r banc yn rheolaidd, yn ôl gofyn y busnes.
HYFFORDDIANT:	Bydd gofyn i ddeiliad y swydd fynychu rhaglenni hyfforddi staff sy'n berthnasol i'r swydd.

Byddaf yn llwyddiannus yn fy rôl pan:

- Fydd fy holl gyfrifoldebau gweithredol allweddol yn cael eu cyflawni'n gyson i safon uchel.
- Byddaf yn cyflawni'r holl ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n benodol i'm rôl.
- Byddaf yn fodel rôl ar gyfer gwerthoedd ymddygiadol Casnewydd Fyw drwy fy mherfformiad.
- Byddaf yn cydweithio ar draws adrannau a gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i gwsmeriaid Casnewydd Fyw.
- Trwy fy mherfformiad a'm hanqerdd, rwy'n

SUT MAE FY MHERFFORMIAD YN CAEL EI FESUR



DATGELU A GWAHARDD:

Gall y swydd hon olygu y byddwch mewn cysylltiad â phlant, yr henoed, pobl sâl neu anabl. Mae Casnewydd Fyw yn gofyn felly, yn ôl Gorchymyn (Eithriadau) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, i chi ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol, gorchymyn rhwymo neu rybudd, gan gynnwys y rhai a ystyrir fel eu bod

wedi eu disbyddu. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais. Bydd ceisiadau'n cael eu dychwelyd os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn destun Gwiriad Datgelu a Gwahardd.

CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL:

- 1 Canolbwyntio ar ansawdd/golwg bwyd, gwasanaeth ac amseroedd dosbarthu, a'r manylion sy'n diffinio gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid.
- 2 Dangos ymwybyddiaeth o anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid; atal problemau cyn iddynt ddigwydd a datrys unrhyw broblemau cwsmeriaid.
- 3 Y gallu i baratoi, coginio a dosbarthu bwyd yn y caffi ac ar gyfer digwyddiadau a phartïon.
- 4 Nodi ffyrdd o yrru gwerthiant a chynyddu gwariant cwsmeriaid.
- 5 Cysylltu â'r Rheolwr Bwyd a Diod a rheoli safle i ddarparu arlwygo ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau a phartïon.
- 6 Trefnu rotâu staff ar gyfer y caffi(s) . Sicrhau bod lefelau gweithlu cywir ar waith ar gyfer y caffi ac unrhyw gyfarfodydd, digwyddiadau a phartïon lle mae angen arlwygo.
- 7 Ysgogi, datblygu, rheoli perfformiad a chynnal adolygiadau ar gyfer Cynorthwyr Bwyd a Diod.
- 8 Ysgogi'r tîm a datrys problemau pobl ar unwaith tra ar shift.
- 9 Cyfrannu at bolisiâu rheoli pobl adnoddau dynol yn ôl y gofyn.
- 10 Cyfrifoldeb am sicrhau bod y tîm yn deall Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd Casnewydd Fyw.
- 11 Cyfathrebu targedau, disgwyliadau a chynlluniau.
- 12 Cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch, hylendid bwyd a chydymffurfio cyfreithiol o fewn gweithrediadau bwyd a diod y safleoedd. Sicrhau bod yr holl restrau gwirio agor a chau yn cael eu cwblhau.
- 13 Sicrhau bod Casnewydd Fyw bob amser yn cydymffurfio â holl ofynion, safonau a pholisiâu a gweithdrefnau cyfreithiol.
- 14 Gwybod y safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt a dangosyddion perfformiad allweddol a chymryd camau i sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd.
- 15 Y gallu i addasu'n gyflym a chael agwedd hyblyg a dull o sicrhau bod gwasanaeth perfformiad uchel yn cael ei ddarparu.
- 16 Cyflawni dyletswyddau'r Cynorthwyr Bwyd a Diod fel a phryd y bo angen.
- 17 Dirprwyo ar gyfer y Rheolwr Bwyd a Diod os oes angen.
- 18 Cyflawni hyfforddiant perthnasol fel bo'r angen.

Mae disgwyl i'r person sy'n gwneud y swydd hon weithio o fewn polisïau, ethos a nodau Casnewydd Fyw a chyflawni dyletswyddau eraill y gallai Prif Weithredwr Casnewydd Fyw eu rhoi iddo.

Mae'r cyfrifoldebau uchod yn destun y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau cyffredinol sydd yn y Datganiad Amodau Cyflogaeth.

Gall dyletswyddau'r swydd hon amrywio o bryd i'w gilydd heb newid naws gyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb sydd ynghlwm â hi.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio i gyflawni amcanion perfformiad y cytunir arnynt; caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd ac yn ffurfiol trwy brosesau rheoli perfformiad Casnewydd Fyw.

RHEOLWR CAFFI – MANYLEB PERSON

Ardal	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	1.1 5 TGAU (Gradd A - G) neu gymwysterau cyfwerth. (A) 1.2 Tystysgrif Hylendid Bwyd Lefel 2 (FfG, T) 1.3 Sgiliau TG da (FfG,C)	1.4 Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n ymwneud â bwyd/arlwyo (FfG, T) 1.5 Tystysgrif Hylendid Bwyd Uwch Lefel 3 (FfG, T) 1.6 Tystysgrif Datgelu a Gwahardd (FfG,T) 1.7 Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch (FfG, T)
Gwybodaeth, Sgiliau a Medrau	2.1 Sgiliau gofal cwsmeriaid rhagorol (FfG, C) 2.2 Y gallu i baratoi a choginio bwyd mewn amgylchedd arlwyo manwerthu (FfG,C) 2.3 Gallu rheoli staff a datblygu eu sgiliau. (FfG, C) 2.4 Gweithio ar eich pen eich hun ac fel aelod o dîm (FfG, C). 2.5 Gallu cyfathrebu'n glir – yn ysgrifenedig ac ar lafar (FfG, C) 2.6 Sgiliau rhifedd cryf (FfG,P) 2.7 Gallu paratoi a choginio bwyd i grwpiau mawr fel rhan o dîm (FfG, P)	
Profiad	3.1 Profiad blaenorol o weithio mewn rôl brysur sy'n wynebu cwsmeriaid (FfG,C) 3.2 Profiad blaenorol o weithio mewn sefydliad arlwyo amlbwrpas prysur (A) 3.3 Profiad o reoli staff a thimau blaenllaw a rheoli llawdriniaethau o ddydd i ddydd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol. (FfG, C) 3.4 Profiad o brynu cyflenwadau, rheoli stoc a storio cynhyrchion bwyd. (FfG, C) 3.5 Profiad o waith bar (FfG) 3.6 Profiad o weithio ar ddigwyddiadau mawr (FfG, P)	
Nodweddion Personol	4.1 Gallu dangos ymrwymiad i wella perfformiad parhaus personol.	

	(C) 4.2 Trwsiadus (C) 4.3 Gallu gweithio'n dda fel unigolyn ac fel rhan o dîm. (FfG, C) 4.4 Meddu ar agwedd bendant a hyderus (C) 4.5 Gallu dangos angerdd am roi gwasanaeth cwsmer rhagorol. (C) 4.6 Meddu ar agwedd 'gellir gwneud' (FfG, C)	
Arall	5.1 Gallu gweithio shifftiau gwaith amrywiol i gynnwys boreau cynnar, gyda'r nos, penwythnosau a gwyliau banc (FfG,C). 5.2 Parodrwydd i weithio o wahanol safleoedd a weithredir gan Casnewydd Fyw (C) 5.3 Trwydded yrru gyfredol lawn. 5.4 Mynediad at gerbyd modur.	

Dull asesu (*D.A.)

FfG: Ffurflen gais (gan gynnwys llunio rhestr fer)

T: Tystysgrif

Y: Ymarferiad

I: Cyfweliad

Cyf: Cyflwyniad

P: Prawf

CA: Canolfan Asesu

Diweddarwyd 27 Hydref 2022